Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

18 Ionawr 2008

Annwyl Gyfaill

**Ymgynghoriad – Cynigion ar gyfer Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion**

Yn amgaeedig mae dogfen ymgynghori sy'n eich gwahodd i roi sylwadau ar fy nghynnig ar gyfer Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cynulliad. Yr oeddwn yn ddigon lwcus i ennill y bleidlais gyntaf a gynhaliwyd yn y Cynulliad sy'n galluogi Aelodau'r Cynulliad i gyflwyno deddfwriaeth. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn sail i'r cynigion terfynol ar gyfer y Mesur a fydd yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cynulliad ym mis Mawrth 2008. Wrth baratoi eich cyflwyniad byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi sylw i'r cwestiynau sydd i'w gweld yn adran 2 y ddogfen ymgynghori.

Os ydych yn dymuno cyflwyno tystiolaeth anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad at y swyddfaddeddfwriaeth@wales.gsi.gov.uk a rhoi'r teitl *Ymgynghoriad Mesur Bwyta'n Iach*. Pe byddai'n well gennych anfon eich cyflwyniad fel copi caled, anfonwch ef at Ruth Hatton, Dirprwy Glerc Pwyllgor, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd CF99 1NA.

**Y dyddiad cau i dderbyn cyflwyniadau yw dydd Gwener 29 Chwefror 2008. Ni fydd yn bosibl ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

Wrth baratoi eich cyflwyniad cofiwch y pwyntiau canlynol os gwelwch yn dda:

- Dylai eich ymateb fod mor gryno ag sy'n bosibl. Rhowch gyfeirnod ar eich ymateb gan ddefnyddio'r teitl a nodwyd uchod.
- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn arferol yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus ar gael i gael eu craffu gan y cyhoedd, a gallant hefyd gael eu gweld a'u trafod mewn cyfarfodydd Pwyllgor. **Os nad ydych am i'ch ymateb neu'ch enw gael ei gyhoeddi mae'n bwysig eich bod yn pwysleisio hyn ar ddiwedd eich cyflwyniad.**
- Nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn, os gwelwch yn dda.
- Nodwch os gwelwch yn dda a fyddech yn barod i roi tystiolaeth lafar i Bwyllgor yn y dyfodol.

**Tel: 029 2089 8025 GTN: 1208**
**Llinell Union / Direct Line: 029 2089 8224**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 20823280**
**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau gysylltu â'r Clerc, Siân Wilkins (ffôn: 029 2089 8224) neu Ruth Hatton, y Dirprwy Glerc (ffôn: 029 2089 8019).

Yn gywir iawn



**Jenny Randerson AC**

**Tel: 029 2089 8025 GTN: 1208**
**Llinell Union / Direct Line: 029 2089 8224**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 20823280**
**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**